OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2022 Rhif 807 (Cy. 183)

# PRIFFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487) (Rhoi Statws Cefnffordd a Thynnu Statws Cefnffordd Ffordd Gyswllt Chimneys, Sir Benfro) 2022

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Bydd y Gorchymyn hwn yn rhoi statws cefnffordd ac yn tynnu statws cefnffordd rhannau o gefnffordd yr A487 ar Ffordd Gyswllt Chimneys, Abergwaun, gan fod Cyngor Sir Penfro wedi adeiladu ffordd gyswllt newydd Ffordd yr Efail.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 807 (Cy. 183)

# PRIFFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487) (Rhoi Statws Cefnffordd a Thynnu Statws Cefnffordd Ffordd Gyswllt Chimneys, Sir Benfro) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *12 Gorffennaf 2022* |
| *Yn dod i rym* | *22 Gorffennaf 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 10 a 12 o Ddeddf Priffyrdd 1980(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487) (Rhoi Statws Cefnffordd a Thynnu Statws Cefnffordd Ffordd Gyswllt Chimneys, Sir Benfro) 2022 a daw i rym ar 22 Gorffennaf 2022.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

Gwneir pob mesuriad pellter ar hyd llwybr y briffordd berthnasol;

(i) ystyr "ffordd ddosbarthiadol" ("*classified road*"), fel dosbarthiad i briffordd, yw nad yw'r briffordd yn brif ffordd at ddiben deddfiadau ac offerynnau sy'n cyfeirio at briffyrdd a ddosberthir yn brif ffyrdd a'i bod hefyd yn ffordd ddosbarthiadol at ddiben pob deddfiad ac offeryn arall sy'n cyfeirio at briffyrdd a ddosberthir gan Weinidogion Cymru ac

(**1**) 1980 p. 66: diwygiwyd adran 10(2) gan adran 22(2)(a) o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

nad yw'n cyfeirio'n benodol at eu dosbarthiad yn brif ffyrdd;

(ii) ystyr "y plan a adneuwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan sy'n dwyn y rhif HA10/2 WG20 ac sydd wedi ei farcio "Gorchymyn Cefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487) (Rhoi Statws Cefnffordd a Thynnu Statws Cefnffordd Ffordd Gyswllt Chimneys, Sir Benfro) 2022", wedi ei lofnodi ar ran Gweinidogion Cymru ac wedi ei adneuo (cyf qA1452133) yn Llywodraeth Cymru, yr Uned Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion, Parc Cathays, Caerdydd;

(iii) ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487).

**Priffyrdd sydd i ddod yn gefnffyrdd**

**3.** Bydd y priffyrdd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir ar y plan a adneuwyd, yn dod yn gefnffyrdd o'r dyddiad y daw'r Gorchymyn hwn i rym.

**4.** Nodir llinellau canol y cefnffyrdd newydd â llinell ddu drom ar y plan a adneuwyd.

**Darnau o gefnffordd sy'n peidio â bod yn gefnffordd**

**5.** Bydd y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, ac a ddangosir â llinellau rhesog llydan ar y plan a adneuwyd, yn peidio â bod yn gefnffordd ac yn dod yn ffordd ddosbarthiadol o'r dyddiad y bydd Gweinidogion Cymru yn hysbysu Cyngor Sir Penfro am hyn, ac wedi hynny, Cyngor Sir Penfro fydd yr awdurdod priffyrdd ar gyfer y darn hwnnw o ffordd.

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru.

Dyddiedig: 12 Gorffennaf 2022

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

## ATODLEN 1

## LLWYBRAU'R CEFNFFYRDD NEWYDD

Llwybr tua 231 o fetrau o hyd yn Abergwaun yn Sir Benfro sy'n dechrau o ganolbwynt y gyffordd rhwng Heol Fawr yr A40 i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain ar ddarn o briffordd yr A487 a elwir yn Ffordd yr Efail hyd at ganolbwynt ei chyffordd ag y Wesh yr A487, Abergwaun, a ddangosir â llinell ddu drom ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 2

## DARN O GEFNFFORDD SY'N PEIDIO Â BOD YN GEFNFFORDD

Darn tua 1066 o fetrau o hyd o gefnffordd bresennol yr A487 ar Ffordd Gyswllt Chimneys, Abergwaun yn Sir Benfro, sy'n dechrau o bwynt 8 metr i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt y gyffordd rhwng y Wesh yr A487 a Ffordd yr Efail yr A487 hyd at ganolbwynt cangen ddwyreiniol Cylchfan Windyhall yr A487 a ddangosir â llinellau rhesog llydan ar y plan a adneuwyd.